


Teithiau Byr



Freshwater East/Bae Swanlake

Teithiau Byr

Hyd: 1 awr 30 munud

Pellter: 3.2 milltir (5.1 km)

Cludiant cyhoeddus: *Coastal Cruiser (*galw a teithio)

Cyfeirnod map: SS031983

Mae'r traeth llydan tywodlyd wedi bod yn boblogaidd ymhlith y rheiny sy'n dod yma ar eu gwyliau ers degawdau, ond mewn canrifoedd a fu roedd Freshwater yn un o hoff lefydd y smyglwyr. Roedd smyglo yn rhan o'r economi lleol yn y 18fed a'r 19eg ganrif ac ar un adeg, roedd Castell Maenorybŷr, filltir neu ddau i'r dwyrain, yn cael ei ddefnyddio fel pencadlys gan griw enwog o smyglwyr o Gernyw a fyddai'n glanio'r contraband ar draethau cyfagos a'i guddio mewn twnneli o dan y castell.

Mae'r twyni tywod yn Nwyrain Freshwater wedi dioddef yn y gorffennol wrth i ymwelwyr droedio drostynt, ond erbyn hyn maen nhw wedi cael eu hadfer a'u gwarchod. Mae'r twyni'n gartref i ambell rywogaeth arbennig iawn o fywyd gwylt, gan gynnwys gloŷnnod. Ar nosweithiau o Haf mae'r pryfed bach yn dringo i dop darn o laswellt cyn "cynnu eu golau" - felly chwiliwch am begynau o olau gwyrdd tuag uchder eich crimog.

Ar y daith hwylus ar hyd copa'r clogwyni rhwng y ddau fae mae yna olygfeydd gwych o'r arfordir, ac mae'r llwybr ar hyd y lonydd yn gallu bod yn wled i'r llygaid hefyd, yn enwedig pan fydd ochrau'r lonydd yn fwrlwm o flodau gwylt lliwgar yn y Gwanwyn.

Mae'r daith yn eich tywys chi i Fae Swanlake, sy'n dawel fel arfer oherwydd dim ond ar droed y gellir ei

gyrraedd. Wrth gefn y traeth chwiliwch am arwyddion traeth cynharach, gam yn uwch na'i olynydd. Mae'r cyfordraeth yn atgof o adeg cyn yr Oes Iâ pan yr oedd lefel y môr o gwmpas Sir Benfro yn uwch nag y mae heddiw.

Nid yw olion anheddiad dynol cynnar iawn wastad yn hawdd eu gweld. Roedd helwyr-gasglwyr Sir Benfro yn Oes y Cerrig yn byw mor syml mai ychydig o olion sydd ar ôl o'u presenoldeb, ond weithiau mae archeolegwyr yn darganfod olion o'r gwastraff a adawyd wrth iddyn nhw weithio'r fflintiau i gael ymyl miniog. Daethpwyd o hyd i ddarnau o fflint o'r math yma ym Mae Swanlake.

Mae Tim Jones, Parcmon Sector y De gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yn dweud: "Mae Maenorybŷr a'r ardal gyfagos yn lle cyfareddol sydd â hanes diddorol. Mae straeon y smyglwyr ymhlith y straeon mwyaf diddorol - er, hyd y gwn i, nid oes unrhyw dystiolaeth gadarn i'w cefnogi nhw."

